# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mercher, 5 Ebrill 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Clement-Williams, J.Henton, J.Jones, R.G.Jones, S.Paddison, C.Phillips, R.Phillips, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | A.Thomas, C.John, T.Davies, M.Shaw, L.Thomas, C.Furlow-Harris a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, D.M.Peters a/ac J.Hale |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Nodwyd bod y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus wedi'i thynnu oddi ar agenda'r Cabinet gan fod fersiwn anghywir o'r adroddiad Ymgynghori wedi'i dosbarthu.Nodwyd y bydd fersiwn wedi'i diweddaru yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod y dyfodol.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd y cofnodion canlynol fel cofnod cywir:

   - 19.01.2023
   - 22.02.2023
   - 1.03.2023

## 4. <u>ADRODDIAD GRŴP GORCHWYL A GORFFEN STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG</u>

Nododd y Pwyllgor waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Hybu’r Gymraeg ar yr adolygiad o Strategaeth Hybu’r Gymraeg ddrafft.

Yn dilyn craffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o gymeradwyo canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a Strategaeth Hybu'r Gymraeg i'r Cabinet eu hystyried.

## 5. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>

<u>Dangosyddion Perfformiad Chwarter 3</u>

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am berfformiad gwasanaeth chwarter 3 ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a data canmoliaeth a chwynion, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaethau ynghylch cymhlethdod yr adroddiad.Nodwyd bod angen i'r adroddiad fod yn addas i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau bod y cyngor yn annog y cyhoedd i gymryd rhan.Nodwyd hefyd fod angen i'r acronymau yn yr adroddiadau fod yn glir gyda diffiniadau wedi'u manylu neu eu dileu.

Nodwyd yr adroddiad.

## 6. <u>BLAENRAGLEN WAITH 2022/23</u>

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

## 7. <u>EITEMAU BRYS</u>

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**